

Agwedd un sy'n alltud

“a’r sawl sy’n casáu ei einioes yn y byd hwn, bydd yn ei chadw i fywyd tragwyddol.” (adn. 25)

Beth am ddarlenn Ioan 12:20–36 ac yna myfyrio

Dros y blynyddoedd, rwyf wedi cyfarfod â llawer o bobl dduwiol iawn, ac un o’r pethau sydd bob amser yn fy rhyfeddu ynglŷn â’r bobl sydd yn byw yn agos at yr Arglwydd yw fod rhywbeth o agwedd yr alltud yn perthyn iddyn nhw. Mae eu geiriau a’u gweithredoedd yn arddangos fod y byd yma yn lle dieithr iddynt a’u bod megis pererinion yn mynd drwodd.

Mae’n debyg mai un o freintiau mawr fy mywyd i oedd adnabod un person yn arbennig yr oeddwn i yn ei ystyried ei fod yn debyg iawn i’r Arglwydd Iesu. Glöwr oedd wrth ei alwedigaeth, a’r hyn oedd yn rhyfeddol oedd y modd y bu i bobl oedd ddim yn Gristnogion sefydlu perthynas agos ag ef. Ni allai neb regi yn ei wŷydd ac os oeddent o bryd i’w gilydd yn anghofio eu hunain a bod gair yn dod o rywle, mi fyddent ar eu hunion yn ymddiheuro. Pan bu farw, bu bron i bawb o’r pwll glo lle’r oedd yn gweithio ddod i’r angladd. Gwelais ddynion cryf yn crio fel babanod wrth i’w gorff gael ei ostwng i mewn i’r bedd. Rhoddodd un o bregethwyr enwocaf Cymru y deyrnged yn ei angladd, ac er fy mod wedi anghofio llawer o’r hyn ddywedodd ef, rwyf yn cofio un frawddeg a ddefnyddiodd pan oedd yn disgrifio bywyd glöwr. Dyma’r frawddeg yr wyf wedi ei defnyddio ychydig ynghynt. “Roedd ein brawd”, meddai, “yn ymdebygu i un oedd yn alltud.”

Mae’n siŵr y gellid dweud yr un peth am yr apostol Paul. Yr oedd yn brysur eithriadol dros deyrnas Dduw, ond yn 2 Corinthiaid 5:8, mae’n mynegi ei awydd i fod gartref gyda Duw. Mae’r dyn duwiol yn edrych ar bethau’r byd yma yn debyg iawn i’r ffordd y mae edrych ar gelfi ystafell wely mewn gwesty. Efallai eu bod yn hardd iawn, ond ddim yn bwysig – dwi ddim yn aros.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Phil. 1:12–26; 1 Thes. 4:13–18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd ing Paul?
2. Sut y medrwn annog ein gilydd?

Gweddï

Arglwydd, dwi eisiau byw mor agos atat ti, fel y bydd pobl yn ymwybodol mai alltud ydw i yn y byd. Helpa fi i beidio gwreiddio fy mywyd yn y byd yma, ond bob amser i sylweddoli fod fy nghartref yn un tragwyddol. Rydw i’n gweddïo yn enw Iesu Grist. Amen.